COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR POLISI A CHYLLID, CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FERCHER, 20FED TACHWEDD 2019 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Chris Hughes (Cadeirydd)
Cynghorwyr H. Fleet, M.A. Jones, H. Meredith, P. Richards, K. Swindon

SWYDDOGION: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref
Miss L. Austin, Swyddog Gweinyddol Cynorthwyol

246/19 <u>Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:</u>

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr D. Howcroft, A. Khan ag A. Pearson.

247/19 <u>Datgan Cysylltiadau:</u>

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Datganodd y Cynghorwyr H. Meredith a P. Richards eu cysylltiadau personol efo Eitem 4(c) - Cloc Cofeb Andrew Fraser. Am fod y Cynghorwyr wedi cael eu penodi gan y Cyngor Tref i fod yn Ymddiriedolwyr o Ymddiriedolaeth y Gofeb, mae'r cysylltiad yn cael ei eithrio ac felly nid yw yn gysylltiad all ragfarnu.

248/19 <u>Cofnodion:</u>

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 9fed Hydref 2019.

249/19 <u>Materion yn Codi o'r Cofnodion:</u>

a. Cofnod 212/19(a) – Deddf Amgylchedd Cymru 2016:

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, y canllawiau ychwanegol a dderbyniwyd odd i wrth Lywodraeth Cymru ynglŷn â dyletswydd y Cyngor Tref i gyhoeddi cynllun oedd yn dangos yr hyn yr oeddynt yn bwriadu gwneud i gynnal a hyrwyddo bioamrywiaeth ac i hybu hydwythedd.

Penderfynwyd nodi bydd y Clerc yn paratoi adroddiad drafft ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn sydd i'w gynnal ar ddydd Llun, 2il Rhagfyr 2019.

(b) Cofnod 212/10 – Is-etholiad yn Ward Rhiw:

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, Datganiad am Ganlyniad Is-etholiad Ward Rhiw a gynhaliwyd ar 14eg Tachwedd 2019.

Penderfynwyd nodi bod Debra Jones wedi cael ei hethol i'r Cyngor Tref ac mi fydd yn llofnodi ei Datganiad o Dderbyn y Swydd o fewn yr wythnos nesaf.

(c) Cofnod 218/19(a) – Cloc Coffa Andrew Fraser:

Cyflwynodd y Clerc e-bost oddi wrth Grŵp Smith o Derby yn cadarnhau'r amserlen ar gyfer gosod y cloc newydd ac yn gofyn am flaendal o 30% tuag at gostau eitemau arbenigol yr isgontractwyr e.e. piler haearn bwrw'r cloc.

- Datganodd y Cynghorwyr H/.Meredith a P. Richards eu cysylltiad personol (heb fod yn un all ragfarnu) yn yr eitem hon, fel Ymddiriedolwyr a benodwyd gan y Cyngor Tref i Ymddiriedolaeth y Cloc. /

Penderfynwyd rhoi awdurdod i dalu blaendal o 30% (£6,560.40 + TAW) a nodi'r amserlen ar gyfer adfer y cloc.

250/19 <u>Cyllid:</u>

a. ***Penderfynwyd rhoi awdurdod am y taliadau a wnaed ar ran y Cyngor yn y cyfnod o 1/10/2019 i 15/11/2019 sy'n ymddangos yn Atodiad 'A' sydd gyda hwn.***

b. ***Penderfynwyd derbyn y datganiadau cysoni'r banc fel yr oedd ar 31/10/2019 a rhoi awdurdod iddynt gael eu gwirio a'u llofnodi gan y Cadeirydd a'r Clerc.***

c. Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, gohebiaeth oddi wrth CCLA parthed Prisiau Cronfa Eiddo Awdurdodau Lleol ar gyfer Medi 2019 a Chronfa Cadw'r Sector Cyhoeddus hyd at 31ain Hydref 2019.

Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth a'i nodi.

ch. Cyflwynodd y Clerc anfoneb, i gael ei awdurdodi, oddi wrth Alexander Locksmiths am £115.00 am waith brys i ddrws yr ystafell boiler y tu ôl i Orsaf yr Heddlu ar 19eg Hydref 2019 ac a awdurdodwyd gan y Cadeirydd

Penderfynwyd cadarnhau'r taliad o £115 i Alexander Locksmiths am y gwaith brys.

d(i) Cyflwynodd y Clerc amcan bris i'w ystyried oddi wrth Enviro-Tech am £198.00 + TAW, tuag at y gwaith o atal colomennod i nythu yng ngwagle'r to uwchben yr ystafell Bwyllgor.

Penderfynwyd derbyn amcan bris Enviro-Tech a dweud wrthynt am gwblhau'r gwaith.

d(ii) Cyflwynodd y Clerc amcan bris i'w ystyried oddi wrth Hamilton Security Systems Cyf am £195.00 (heb TAW) am gamera TCC newydd i wynebu'r brif fynedfa oherwydd ymyrraeth ar y ddelwedd.

Penderfynwyd derbyn amcan bris Hamilton Security Systems Cyf. a dweud wrthynt am gwblhau'r gwaith.

e Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, rhybudd oddi wrth Rialtas Business Solutions am y ffioedd a'r taliadau am feddalwedd ariannol ar gyfer 2019/20.

Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth a'i nodi.

f. Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth ac ystyriaeth, amcan bris gan Microshade VSM am fod yn westai i gyfrifon e-bost Microsoft Exchange. Bydd hwn yn darparu rhestrau canolog o gyfeiriadau ebost, bod yn gymhorthydd swyddfa allan o'r swyddfa, hidlwr sbam a feirws negeseuon ebost a'r gallu i agor negeseuon ebost trwy borwr y we a ffôn symudol. Bydd y gost unwaith ac am byth o £24 i drosi'r blychau post presennol i Gyfnewidfa, i'w ddilyn gyda chost pob mis o £13.98 (£6.99 am bob cyfrifiadur personol).

Penderfynwyd cymeradwyo'r amcan bris a gofyn i'r Clerc newid y blychau e-bost i Gyfnewidfa Microsoft.

251/19 <u>Llywodraeth Cymru:</u>

Nid oedd unrhyw ohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru.

252/19 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol er gwybodaeth ac ystyriaeth:

(a) Cyfarfod Swyddogion Rheoli Strategaeth Byw yn y Bae:

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed Tachwedd a fu'n ymdrin â'r materion allweddol canlynol:

Dosbarthwyd yr adroddiad meincnodi blynyddol ar gyfer Bae Colwyn a chafwyd trafodaeth am nifer o faterion allweddol. Dangoswyd yn yr adroddiad y bu gostyngiad arwyddocaol yn symudiad pobl rhwng Canolfan Bay View a Ffordd yr Orsaf rhwng Mai ag Awst 2019 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2018. Bu cynnydd, fodd bynnag, yn symudiad pobl o Coed Pella i ganol y dref (fel y disgwylid gydag adeiladu'r swyddfa newydd). Er nad oedd y lefelau o eiddo gwag wedi cynyddu'n sylweddol, roedd y lefel o eiddo gwag yn Ffordd yr Orsaf yn arbennig o uchel. Er bod hyn yn fater o bryder, fe nodwyd bod diddordeb ar hyn o bryd gan rai pobl, pe bai Ffordd yr Orsaf yn ail-agor i draffig. Fe nodwyd hefyd efallai bod symud y farchnad i Ffordd Sea View wedi cyfrannu tuag at y gostyngiad yn symudiad pobl i Ffordd yr Orsaf (er nad oedd lleoliad y cyfrifydd yn hollol eglur). Bydd y farchnad yn gorfod aros yn gyfyngedig i Ffordd Sea View ac efallai maes parcio Ivy Street pe bai Ffordd yr Orsaf yn ail agor. Mae'r Cyngor yn parhau i chwilio am fasnachwr preifat i gymryd rheolaeth o'r farchnad yn y stryd ac fe gyhoeddwyd gwahoddiad yn ddiweddar i bobl datgan ei diddordeb.

Mewn perthynas â Chynllun Datblygu Canol y Dref, mae yna ffafriaeth i ddefnyddio safle'r hen neuadd farchnad i fod yn faes parcio a'i gyfnewid am faes parcio Rhodfa'r Tywysog a fydd ar gael wedyn i gael ei ddatblygu. Mae gwaith dal i wneud i gysylltu canol y dref a'r promenâd ag ardal Grisiau'r Orsaf. Fe gyflwynir y cynigion drafft i'r Bwrdd Rheoli Strategaeth yn Rhagfyr cyn mynd am ymgynghoriad cyhoeddus.

Yn y gyfres ddiweddaraf o Brosiectau Adfywio (TRI) mae tri Adeilad Masnachol yn cael eu hystyried am fuddsoddiad. Disgwylir cwblhau'r rhain yn Rhagfyr gyda chyfanswm gwariant o £350,000. Cyflwynwyd cais drafft am grant ei gyflwyno i fwrdd rhanbarthol adfywio wythnos diwethaf ar gyfer Imperial Building, a gydag ychydig o fan newidiadau, fe'i cefnogwyd. Bydd y cynnig yn mynd gerbron Panel Llywodraeth Cymru yn Rhagfyr i'w derfynu. Mae cynigion y datblygiad yn cynnwys

21 o fflatiau newydd ar y llawr uchaf ac fe osodwyd targed o lefel rent canolig i'r 21, a bydd 3 uned fasnachol newydd ar y llawr gwaelod. Fe ddisgwylir cyfnod adeiladu o flwyddyn.

Mae'r cynlluniau amlinellol ar gyfer Cam 2B o Ddatblygiad Lan y Môr yn symud ymlaen.

Mae'r gwaith ar gyfer Cam C Adnewyddu Tai yng nghyffiniau Ffordd Abergele a thu cefn i Theatr Colwyn i fod i ddechrau ar 28ain Tachwedd.

Mae prosiect y Ganolfan Teulu wedi'i ddal yn ôl ar hyn o bryd. Cyflwynwyd cais am gyllid cyfalaf i GBSC yn Nhachwedd (heb ei ystyried hyd yn hyn). Os derbynnir cyllid odi wrth GBSC, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried rhoi cefnogaeth gyda grant. Bydd hyn yn cael effaith ar nifer o brosiectau eraill e.e. y ganolfan ieuenctid.

Mae prif adeilad y Ganolfan Ddinesig yn cael ei ddatblygu fel swyddfeydd gyda pharcio cysylltiedig.

Derbyniwyd addewid o £1.8 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru'r wythnos flaenorol ar gyfer Promenâd Hen Golwyn (o gyllid teithio gweithgar ac nid diogelu'r arfordir), ac fe obeithir bydd hyn yn helpu i annog partneriaid eraill efo cyllid.

(b) Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad drafft ar gyfer y Cyfarfod Neilltuol parthed 'Cyflwyno Gwasanaethau Cynaliadwy i Gymunedau Conwy'.

Trafodwyd meysydd chwarae, TCC, Maes Parcio Ffordd Berthes a thoiledau cyhoeddus y Promenâd / Porth Eirias gan yr Aelodau. Fe nodwyd fe gynhelir trafodaeth lawn ar yr holl eitemau yn yr adroddiad yng nghyfarfod llawn y Cyngor ar ddydd Llun 25ain Tachwedd.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad drafft.

253/19 <u>Sesiynau CVSC Chwarae Allan Gwyliau'r Haf:</u>

(a) Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, adroddiad gan CVSC am eu cynllun Peilot 'Holiday Hunger - Playworks' a gynhaliwyd yn haf 2019.

Penderfynwyd nodi'r adroddiad.

(b) Cyflwynodd y Clerc cais i'w ystyried oddi wrth CVSC am gyllid ar gyfer cynllun 'Chwarae Allan' yn ystod haf 2020 o 5 sesiwn ar gost o £1,350 am bob sesiwn.

Penderfynwyd argymell cefnogi cais am gyllid am 5 sesiwn dros 5 wythnos am gyfanswm o £6,750.

254/19 <u>Pensiynau Gwynedd:</u>

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, sleidiau o'r cyfarfod gwerthuso a gynhaliwyd yn ddiweddar a nodi bydd graddfa cyfraniad y cyflogwr yn gostwng o 19.5% i 17.9% am y tair blynedd nesaf.

Penderfynwyd nodi a chroesawu'r ohebiaeth.

255/19 <u>BID Colwyn:</u>

Cyflwynodd y Clerc papur ymgynghori i'w ystyried oddi wrth BID Colwyn, i benderfynu os oedd BID Colwyn am redeg ei dymor llawn o 5 mlynedd neu derfynu'n gynt ar 31ain Mawrth 2020. Fe nodwyd bod y penderfyniad yn y Cyfarfod Cyffredinol Neilltuol bron iawn yn unfrydol i ddod a BID Colwyn i ben yn gynnar. Roedd Llywodraeth Cymru, fodd bynnag wedi gofyn am ymgynghoriad helaethach am y dyddiad terfynu.

Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth.

256/19 <u>Gwasanaeth Tân ag Achub Gogledd Cymru:</u>

Cyflwynodd y Clerc papur ymgynghori i'w ystyried, am strategaeth amgylcheddol hirdymor y gwasanaeth.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

257/19 <u>Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol:</u>

Cyflwynodd y Clerc yr Adroddiad Blynyddol drafft er gwybodaeth ac i'w ystyried.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

258/19 <u>Gweithdai Amrywiaeth a Democratiaeth:</u>

Rhoddodd y Cynghorydd H. Fleet adroddiad byr ar lafar am y Gweithdy Amrywiaeth a Democratiaeth a fynychwyd ganddi ar 19eg Tachwedd. Archwiliwyd y cynnydd mewn amrywiaeth ar draws pob agwedd o fywyd cyhoeddus a sut i fynd i'r afael a'r rhwystrau oedd yn atal unigolion rhag cymryd rhan mewn democratiaeth leol.

Dywedodd y Cynghorydd Fleet wrth yr Aelodau bod y gweithdy wedi trafod y dulliau i gael mwy o bobl i fod yn Gynghorwyr Tref neu Gymuned ac fe ddynodwyd y rhwystrau oedd yn atal hyn. Cafwyd trafodaeth hefyd am gydraddoldeb ag amrywiaeth ac fe awgrymwyd y dylai'r Cyngor Tref adolygu ei bolisïau yn y maes hwn.

Trafodwyd hefyd gan yr Aelodau sut y gall y Cyngor Tref denu mwy o Aelodau ieuanc. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys gwaith ymestyn allan a chaniatáu sesiynau o drafodaethau i ysgolion uwchradd lleol.

Penderfynwyd bod Polisi Cyfartaledd ag Amrywiaeth y Cyngor Tref i gael ei adolygu.

Fe benderfynwyd ymhellach i ychwanegu dolen gyswllt ar wefan y Cyngor Tref at ddogfen Un Llais Cymru 'Bod yn Gynghorydd'.

259/19 <u>Lwfansau Ward Aelodau Lleol:</u>

Ni dderbyniwyd unrhyw gynigion oddi wrth yr Aelodau.

260/19 <u>Grantiau:</u>

(a) Grantiau Ieuenctid: Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod cyfarfod i gael ei gynnal gyda CVSC a'r Gwasanaeth Ieuenctid i drafod sut i weithredu'r ymarfer Cyllido Cyfranogol o £5,000. Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod £7,000 ychwanegol yn y gyllideb. Cytunodd yr Aelodau i aros i weld beth oedd yr ymateb i Gyllido Cyfranogol cyn penderfynu ar sut i ddefnyddio gweddill y gyllideb.

(b) Grantiau at Ddigwyddiadau:

Cyflwynodd y Clerc y ffurflen drafft am geisiadau am grantiau at ddigwyddiadau i'w ystyried, yn ogystal â'r nodiadau am ganllawiau 2020/21.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc anfon Datganiad i'r Wasg am y Grantiau at Ddigwyddiadau, gyda 2il Ionawr 2020 i fod yn ddyddiad cau.

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod £4,881 yn weddill yng nghyllideb y Grantiau at Ddigwyddiadau 2019/20.

(c) Grantiau Mawr:

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr am yr ymholiad diweddar am y posibilrwydd o gais am grant gan gyn milwr oedd yn edrych i greu 'Corfflu Drymiau Bae Colwyn' o'r newydd. Bydd y band yn agored i'r rhai dros 14 mlwydd oed sydd â diddordeb i chwarae naill ai'r drymiau neu'r ffliwt. Roedd ar hyn o bryd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i asesu'r diddordeb, ac roedd wedi cadarnhau bydd Canolfan y Fyddin Diriogaethol ym Mae Colwyn yn barod i ganiatáu sesiynau ymarfer ag i storio offer. Roedd yn gobeithio cael cefnogaeth ariannol gan y Cyngor Tref i brynu'r offer angenrheidiol; 8 drwm ac o leiaf 15 ffliwt, yn ogystal â ffyn taro drwm, padiau ymarfer, llyfrau cerddoriaeth ayb.

Roedd yr Aelodau'n gefnogol i'r syniad a gofynnwyd i aelod o'r cyhoedd cael ei annog i wneud cais am gyllid grant. Awgrymodd yr Aelodau hefyd, efallai bydd Merfyn Thomas o'r Lleng Prydeinig yn gallu helpu efo cyllid.

(ch) Fe nodwyd y derbyniwyd llythyrau o ddiolch / adroddiadau oddi wrth y canlynol a dderbyniodd grant:

(i) Clwb Cinio RVS Parkway
(ii) Motorsport UK yn cynnwys neges e-bost i gadarnhau TAW ar yr anfoneb ddiweddar

(d) Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol:

Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth a gofyn i'r Clerc anfon copi at y Cynghorydd C. Hughes o Ffederasiwn Amgylcheddol Bae Colwyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 p.m.

.....Cadeirydd

MINUTES OF A POLICY AND FINANCE COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, TO BE HELD IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY AT 6.30PM ON WEDNESDAY 20TH NOVEMBER 2019

PRESENT: Cllr C Hughes (Chairman)
Cllrs**:** H Fleet, C Hughes, MA Jones, H Meredith, P Richards, K Swindon

OFFICERS: C Earley, Town Clerk
L Austin, Administrative Assistant

246/19 Welcome & Apologies for Absence:

The Chair welcomed Members to the meeting. Apologies were received from Cllrs: D Howcroft, A Khan, T Pearson.

247/19 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests.

Cllrs H Meredith and P Richards declared a personal interest in Item 4(c) – Andrew Fraser Memorial Clock. As the Councillors had been appointed by the Town Council as Trustees to the Memorial Trust, an exemption applies and is not therefore a prejudicial interest.

248/19 Minutes:

Resolved to approve and sign, as a correct record the Minutes of the last meeting, held on 9th October 2019.

249/19 Matters Arising from the Minutes:

(a) Min. 212/19(a) – Environment Wales Act 2016:

The Clerk submitted for information the additional guidance received from the Welsh Government in regard to the Town Council's duty to publish a plan setting out what they propose to do to maintain and enhance biodiversity, and promote resilience.

Resolved to note that the Clerk will draft a report for the next Full Council meeting to be held Monday 2nd December 2019.

(b) Min. 212/19 – By-election in Rhiw Ward:

The Clerk tabled, for information, the Declaration of Result of Poll of the recent by-election in Rhiw Ward held on the 14th November 2019.

Resolved to note that Debra Jones had been elected to the Town Council and would be signing her Declaration of Office within the next week.

(c) Min. 218/19(a) – Andrew Fraser Memorial Clock:

The Clerk submitted an email from the Smith of Derby Group confirming the timescale for the installation of the replacement clock and requesting a 30% deposit towards the subcontract costs of specialist items e.g. the clock's cast iron pillar.

- Councillors H Meredith and P Richards had declared a personal (non-prejudicial) interest in this item, as Town Council appointed Trustees to the Clock Trust.

Resolved to authorise payment of the 30% deposit (£6,560.40 + VAT) and note the timescale for the clock's reinstatement.

250/19 <u>Finance</u>:

(a) Resolved to authorise payments, made on behalf of the Council for the period 01/10/2019 to 15/11/2019, as detailed in Schedule 'A' attached.

(b) Resolved to receive and authorise the Clerk and Chair to check and sign the bank reconciliations as at 31/10/2019.

(c) The Clerk submitted, for information and consideration, correspondence from CCLA a't ataliadau am feddalwedd arinannol am 2019/20regarding the Local Authorities Property Fund Prices for September 2019, and the Public Sector Deposit Fund up to 31st October 2019.

Resolved to receive and note the correspondence.

(d) The Clerk submitted, for endorsement, an invoice from Alexander Locksmiths for £115.00 for the urgent repair of a boiler room door behind the Police Station on 19th October 2019 which had been authorised by the Chair.

Resolve to endorse payment of £115 to Alexander Locksmiths for the urgent repair.

(e)(i) The Clerk submitted, for consideration, a quotation from Enviro-Tech for £198.00 plus VAT for works to stop pigeons nesting in the roof void above the Committee room.

Resolved to accept the quotation from Enviro-Tech and instruct them to complete the works.

(e)(ii) The Clerk submitted, for consideration, a quotation from Hamilton Security Systems Ltd for £195.00 (exc. VAT) for a replacement CCTV camera facing the main entrance due to interference on the image.

Resolved to accept the quotation from Hamilton Security Systems Ltd and instruct them to complete the works.

(f) The Clerk submitted, for information, a notice from Rialtas Business Solutions of fees and charges for finance software for 2019/20.

Resolved to note and approve the correspondence.

(g) The Clerk submitted, for information and consideration, a quotation for hosted Microsoft Exchange e-mail accounts from Microshade VSM which would provide centralised email address lists, an out of office assistant, email spam and virus filtering and the ability to access the emails via web browser and mobile phone. There would be a one-off cost of £24.00 to convert existing mailboxes to Exchange, followed by a monthly cost of £13.98 (£6.99 per PC).

Resolved to approve the quotation and request the Clerk changes the email mailboxes to Microsoft Exchange.

251/19 <u>Welsh Government</u>:

No correspondence was received from Welsh Government.

252/19 <u>Conwy County Borough Council</u>:

The Clerk submitted, for information and consideration, the following correspondence:

(a) Bay Life Strategic Officers Meeting:

The Clerk gave a brief verbal report on the meeting held on the 18th November, covering the following key points:

The annual benchmarking report for Colwyn Bay had been circulated and a discussion took place around several key issues. The report showed a marked decrease in footfall between the Bay View Centre and Station Road during May-Aug 2019, compared to the same period in 2018, though there had been an increase in footfall from Coed Pella into the town centre (as expected, due to the new office building). Though vacancy levels had not shown a significant increase, Station Road had particularly high vacancy levels. Though this was of concern, it was noted that there are currently 2-3 interested parties pending, if Station Road were to re-open to traffic. It was also noted that the shift of the market into Sea View Road may have contributed to the lower footfall into Station Road (though it wasn't clear exactly where the counter was located). The market would have to stay confined to Sea View Road and possibly Ivy Street car park if Station Road were to re-open. The County Council is still seeking a private operator to take over the running of the street market and an invite for expressions of interest has recently been published.

With regards to the Town Centre Investment Plan, there is a preference for the old market hall site to become a car park and swap for Princes Drive, which would then be made available for development. There is still work to do on the link from the town centre to the promenade and Station Steps area. The draft proposals will be submitted to the Strategic Management Board in December, prior to public consultation.

Under the latest round of Regeneration Projects (TRI), there are three Commercial Properties being considered for investment. These are due to be signed off in December, with a potential total spend of £350,000. A draft grant application had been submitted to the regional regeneration board last week for the Imperial Building and this was supported, subject to a few amendments. The proposal will now go to the Welsh Government panel in December to finalise. The development proposals consist of 21 new

apartments on the upper floors, with a target of 21 at intermediate rent levels, and 3 new ground floor commercial units. There is expected to be a 12-month build period.

The outline designs for the Waterfront Phase 2B are progressing.

Work is due to start the week beginning 28th November for the Housing Renewal Phase C, in the vicinity of Abergele Road and to the rear of Theatr Colwyn.

The Family Centre project is currently on hold. A Capital funding case was submitted to CCBC in November (but not yet considered). Subject to CCBC funding, WG will consider grant support. This impacts on lots of other projects e.g. youth centre.

The Civic Centre main building is being developed as office space with associated parking.

Old Colwyn Promenade had received a pledge of £1.8 million funding from the Welsh Government the previous week (from active travel and not coastal defence funds), which it was hoped will help to lever in funding from other partners.

(b) The draft report for the Extra-ordinary meeting of the Council regarding 'Delivering Sustainable Services in Conwy's Communities' was submitted by the Clerk.

Members discussed playgrounds, CCTV, Berthes Rd Car Park and Promenade/Port Eirias public conveniences. It was noted that a full discussion will take place on all the items on the report at the full council meeting on Monday 25th November.

Resolved to receive and note the draft report.

253/19 <u>CVSC Playing Out Summer Holiday Play Sessions</u>:

a) The Clerk submitted, for information, a report received from CVSC on their Holiday Hunger – Playworks Pilot held during the Summer of 2019.

Resolved to note the report.

(b) The Clerk submitted, for consideration, a funding request from CVSC for 'Playing Out' provision during the Summer 2020, for 5 sessions at a cost of £1.350 per session.

Resolved to recommend supporting the funding request for 5 sessions over 5 weeks, at a total cost of £6,750.

254/19 <u>Gwynedd Pensions</u>:

The Clerk submitted, for information, presentation slides from the recent valuation meeting and note that the employer contribution rate will fall from 19.5% to 17.9% for the next three years.

Resolved to note and welcome the correspondence.

255/19 <u>Colwyn BID</u>:

The Clerk tabled, for consideration, a consultation paper from Colwyn BID to decide whether Colwyn BID runs its full 5 year term or terminates early on the 31st March 2020. It was noted that there was an almost unanimous decision at the EGM to terminate the BID early, however the Welsh Government asked for wider consultation regarding the date of termination.

Resolved to note the correspondence.

256/19 <u>NW Fire & Rescue Service</u>:

The Clerk submitted, for consideration, a consultation on the service's long-term environmental strategy.

Resolved to note the correspondence.

257/19 <u>Independent Remuneration Panel for Wales</u>:

The Clerk submitted, for information and consideration, the draft Annual Report.

Recommended to receive the report.

258/19 <u>Diversity in Democracy Workshops</u>:

Cllr H Fleet gave a brief verbal report on the Diversity in Democracy Workshop she had attended on the 19th November which looked at increasing the diversity across all areas of public life and how to tackle the barriers which may prevent an individual participating in local democracy.

Cllr Fleet informed Members that the workshop discussed ways in which more people could become Town or County Councillors and identified barriers which may prevent this. A discussion also took place regarding equality and diversity and it was suggested that the Town Council should review its policies in this area.

Members also discussed how the Town Council could attract more younger Members. Suggestions included outreach work and facilitating debating sessions for local high schools.

Resolved to request the Town Council's Equality & Diversity Policy is reviewed.
Further resolved to add a link on the Town Council website to One Voice Wales's 'Being a Councillor' document.

259/19 <u>Local Members Ward Allowances</u>:

No proposals had been received from Members.

260/19 <u>Grants</u>:

(a) **Youth Grants:** The Clerk informed Members that a meeting would be held with CVSC and the Youth Service to discuss how the £5,000 Participatory Budgeting exercise would proceed. The Clerk informed Members that there was a further £7,000 in the budget. Members agreed to wait to see the response to the Participatory Budgeting before deciding how the remaining budget should be used.

(b) **Events Grants:**

The Clerk tabled, for consideration, the draft events grant application form and guidance notes for 2020/21.

Resolved to request the Clerk sends out the Events Grants Press Release, with a closing date of the 2nd January 2020.

The Clerk advised Members that there was £4,881 left in the Events Grants budget for 2019/20.

(c) **Large Grants:**

The Clerk gave a brief report following a recent enquiry about a potential grant application from an ex-serviceman was looking into setting up a new 'Colwyn Bay Corps of Drums'. The band would be open to those aged over 14 years of age who were interested in playing either the drum or flute. He was currently gauging interest on social media and confirmed the Territorial Army Centre in Colwyn Bay would host the practice sessions and store the equipment. He was potentially looking for funding support from the Town Council to purchase the required equipment: 8 drums and a minimum of 15 flutes, plus drumsticks, practice pads, music books, etc.

Members were supportive of the idea and requested that the member of the public be encouraged to apply for grant funding. Members also suggested he approach Merfyn Thomas at the British Legion who may also have access to funding.

(d) It was noted that letters of thanks/reports have been received from the following grant recipients:

(i) RVS Parkway Luncheon Club
(ii) Motorsport UK, to include an e-mail confirming VAT on the recent invoice.

(e) **National Lottery Community Fund:**

Resolved to note the correspondence and request that the Clerk forwards a copy to Cllr C Hughes for the Colwyn Bay Environment Federation.

The Meeting closed at 8.45pm

..…… Chairman